**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (02)**
**Dydd Iau, 10 Mai 2001**

# PLEIDLEISIAU A THRAFODION

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

**Cwestiynau Llafar i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Atebwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 6 yn ôl.

**9.24am**
**Cwestiynau Llafar i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**
Atebwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl.

**9.39am**
**Cwestiynau Llafar i Bwyllgor y Ty**
Atebwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiynau 2 a 6 yn ôl.

**9.55am**
**Pwyntiau o drefn**

Janice Gregory ar ddefnyddio cyfleusterau'r Cynulliad yn ystod yr Etholiad Cyffredinol. Cyfeiriodd y Llywydd yr Aelodau at ganllawiau ynghylch defnyddio cyfleusterau'r Cynulliad yn ystod ymgyrchoedd etholiadol a anfonwyd gan Swyddfa'r Llywydd at yr holl Aelodau ar 20 Chwefror.

Rod Richards ar hyd atebion Gweinidogion i gwestiynau. Atgoffaodd y Llywydd yr Aelodau bod angen i gwestiynau ac atebion fod yn gryno.

**10.05am**
**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**Dadl ar Adolygiad Pum Mlynedd Awdurdod Datblygu Cymru**
*NDM650 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:*
Croesawu cwblhad yr adolygiad pum mlynedd o Awdurdod Datblygu Cymru ac ymateb y Cabinet i argymhellion yr adolygiad, a anfonwyd drwy e-bost at yr Aelodau ar 2 Mai 2001.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru);**
**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);**

Ychwanegu "yn nodi" ar ôl "Awdurdod Datblygu Cymru" a chyn "ymateb y Cabinet"

**2. William Graham (Dwyrain De Cymru);**
**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);**
*Dileu "." ar ddiwedd y cynnig ac ychwanegu:*

"ac yn galw ar y weinyddiaeth Llafur a Democratiaid Rhyddfrydol i barchu rhyddid Awdurdod Datblygu Cymru i reoli ei hun i gyflawni a chyrraedd y targedau strategol sydd wedi'u gosod neu a all gael eu gosod yn y dyfodol."

**3. William Graham (Dwyrain De Cymru);**
**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);**
*Ychwanegu brawddeg newydd ar ddiwedd y cynnig:*

"Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar y Pwyllgor Datblygu Economaidd i ymchwilio i drefniadau MasnachCymru Rhyngwladol a'u hadolygu."

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
*Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:*

At hynny, mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

yn nodi'r dryswch a achoswyd trwy fod y term "Cynulliad Cenedlaethol" yn cael ei ddefnyddio naill ai i gyfeirio at y Llywodraeth, neu at yr aelodau etholedig, neu at swyddogion, fel yr amlygwyd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd wrth ystyried yr adolygiad (Cofnod 3.3 14 Chwefror), ac mae'n pwysleisio bod angen datrys yr amwysedd hwn ar frys.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
*Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:*

At hynny, mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

yn croesawu'r argymhelliad (6) y dylid monitro effeithiau net yr ymyriadau yn y sector cyhoeddus, ac y dylid cymryd i ystyriaeth wybodaeth am y swyddi a gollwyd i'r economi, ac yn cynnig bod yr egwyddor hon yn cael ei derbyn yn ddi-oed.

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
*Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:*

At hynny, mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

yn croesawu’r argymhelliad (13) y dylid datblygu strategaeth Cymru gyfan ar gyfer marchnata Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru mewn gwledydd tramor, ac yn pwysleisio bod angen canllawiau clir ar "frandio" Cymru yn gyson er mwyn i’r cyfryw farchnata gael yr effaith fwyaf bosibl.

**7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
*Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:*

At hynny, mae’r Cynulliad Cenedlaethol:

yn croesawu’r argymhelliad (33) "y dylai’r Cynulliad Cenedlaethol ar y cyd â Phwyllgor Monitro’r Rhaglen, fel mater o frys, egluro swyddogaeth Awdurdod Datblygu Cymru yn y rhaglen Amcan 1", ac yn nodi nad oedd y partneriaethau rhanbarthol a arweiniwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru yn cyfateb yn ddigon da i flaenoriaethau a mesurau’r Ddogfen Raglennu Sengl.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**
O blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 26; Cyfanswm 43
**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 11; Ymatal 8; Yn erbyn 24; Cyfanswm 43
**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 26; Cyfanswm 43
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43
**Cymeradwywyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42
**Cymeradwywyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43
**Cymeradwywyd Gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O blaid 18; Ymatal 0; Yn erbyn 26; Cyfanswm 44
**Gwrthodwyd gwelliant 7**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd:**
O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42
**Cymeradwywyd y cynnig fel y'i diwygiwyd**

**11.16am**
**Cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 8) (Cymru) 2001**
*NDM651 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*
O dan Adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 8) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001 ac a anfonwyd drwy e-bost at yr Aelodau ar 2 Mai 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

O blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 39
**Cymeradwywyd y cynnig**

**11.40am**
**Dadl a enwebwyd gan Tom Middlehurst yn unol â Rheol Sefydlog 29**
*NNDM632* **Tom Middlehurst (Alun a Glannau Dyfrdwy);** ***Tynnwyd yr eitem hon yn ôl.***
*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 29.2,*

- ☐ Yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Cyllid Chymunedau i ddwyn ymlaen orchymyn drafft o dan Adran 1(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970, fel bod categorïau penodol o gyrff sydd â statws elusennol yn cael eu dynodi yn gyrff cyhoeddus at ddibenion y Ddeddf.
- ☐ Yn nodi y byddai hyn yn galluogi awdurdodau lleol i roi nwyddau a gwasanaethau i gategorïau o gyrff sydd â statws elusennol ar sail ffurfiol a rheoledig.

**11.40am**
**Dadl Fer:** *NDM649* **Janet Ryder (Gogledd Cymru); Teithio Integredig ar gyfer Pleser a Phwrpas**

**Daeth y cyfarfod ddod i ben am 12.03pm.**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 15 Mai 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

Cyflwynwyd y ddeiseb a ganlyn i'r Prif Weinidog ar 1 Mai 2001

Text: We the undersigned, being residents and friends of Wales, calls on Parliament to recognise and accept the wish of the democratically elected representatives in the National Assembly for Wales to keep Wales free of Genetically Modified crops until such crops can be proven safe to both human health and the environment.

Date petition made: Presented to First Minister 01/05/01

Main petitioner: Val L Jones

Number of signatories:5689

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 8 MAI 2001**

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 5) 2001 - LD762

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodaeth a Gweithdrefn) 2001 - LD763

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001 - LD764

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodwyd) (Diwygio) (Cymru) 2001 - LD765

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2001 - LD766

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio) (Cymru) 2001 - LD767

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Addysg (Cyhoeddi Cynigion a Gorchmynion Drafft) (Corfforaethau Addysg Bellach) (Cymru) 2001 - LD768

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Gorchymyn Grantiau Tai (Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2001 - LD769

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2001 - LD770

Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2001 - LD771

Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) (Diwygio) 2001 - LD772

Rheoliadau Gofalwyr (Gwasanaethau) a Thaliadau Uniongyrchol (Diwygio) (Cymru) 2001 - LD773

Gorchymyn Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001 - LD774

Rheoliadau Plant Anabl (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2001 - LD775

Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig - Adroddiad I'r Cyfarfod o dan Rheol Sefydlog 9.9 - LD776

Local Government and Housing Committee - Forward Work Programme - LD777 Dim Copiau Cymraeg ar gael

Local Government and Housing Committee - Progress Report to Plenary - LD778 Dim Copiau Cymraeg ar gael

Pwyllgor Diwylliant - Adroddiad I'r Cynulliad - LD779

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 4 MAI 2001**

Y Pwyllgor Iechyd A Gwasanaethau Cymdeithasol Adroddiad i'r Cynulliad (LD761A)